Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad arolygiad monitro blynyddol ar

# Ysgol Bryn Tirion Hall

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 10/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Bryn Tirion Hall wedi'i lleoli mewn plasty mewn ardal wledig rhwng Wrecsam a Sir y Fflint. Mae tir yr ysgol yn helaeth ac mae'n cynnig gofod awyr agored heddychlon i ddisgyblion.

Mae lle i 24 o ddisgyblion gan yr ysgol, gyda 10 lle preswyl ar gael yn y cartref plant. Ar hyn o bryd, mae dau ar bymtheg o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol ac mae eu hoedran yn amrywio rhwng saith a dwy ar bymtheg oed. Mae saith o'r rhain yn byw yn y cartref plant. Mae datganiadau o anghenion addysgol arbennig gan dri ar ddeg o ddisgyblion.

Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cwblhau ailstrwythuro'i uwch dîm rheoli ac wedi cynyddu ei staff i gynnwys rheolwr busnes, athro gwyddoniaeth rhan-amser ac athro cynradd amser llawn.

## Prif ganfyddiadau

### Cryfderau

**Dyma gryfderau'r ysgol:**

- Mae athrawon yn defnyddio gweithgareddau diddorol ac ysgogol sy'n ennyn diddordeb disgyblion yn eu dysgu. Maent yn cynllunio gwersi ar sail pynciau cyfredol â thema i ddatblygu medrau allweddol a gwybodaeth gyffredinol. Mae'r dull hwn yn hybu diddordeb a symbyliad disgyblion yn dda.
- Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfathrebu'n glir, gyda chywirdeb a rhuglder. Defnyddiant ystod briodol o eirfa i'w hoedran a'u gallu a datblygant eu medrau meddwl yn dda. Mewn pynciau perthnasol, defnyddiant fedrau rhagfynegi a chasglu yn hyderus.
- Mae disgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol a'u medrau bywyd yn dda. Maent yn dangos parch tuag at ei gilydd, staff ac ymwelwyr â'r ysgol.
- Gydag amser, mae disgyblion yn dysgu medrau gwerthfawr o ran sut i reoli eu hemosiynau a'u hymddygiad.
- Mae disgyblion yn datblygu eu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang yn dda trwy gysylltiadau'r ysgol ag elusen ryngwladol. Mae hyn wedi galluogi disgyblion i wneud gwaith gwirfoddol yn Uganda ac mae cynlluniau i ddau ddisgybl arall ymuno â'r fenter yn ddiweddarach eleni.

### Meysydd i'w datblygu

**Dyma feysydd yr ysgol i'w datblygu:**

- Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion yn llawn:
- Mae gwrthdaro buddiannau o ran y swyddogion diogelu sydd wedi'u henwi gan yr ysgol.
- Nid yw'r polisi diogelu'n cynnwys manylion cyswllt clir ar gyfer y swyddogion diogelu.

- Nid yw'r polisi diogelu'n cynnwys llwybr clir i staff ei ddilyn pe bai honiad yn erbyn y pennaeth neu'r swyddogion diogelu.
- Ni does cysylltiadau clir rhwng y polisi diogelu, y polisi gwrth-fwlio a'r polisi ymddygiad.
- Nid yw polisi ymddygiad yr ysgol yn ddigon cynhwysfawr. Nid yw'n ystyried arweiniad cyfredol Llywodraeth Cymru nac yn datgan yn ddigon clir y dulliau i'w defnyddio yn yr ysgol i hybu ymddygiad priodol.
- Nid oes gan yr ysgol system effeithlon i ddadansoddi data ar ymddygiad disgyblion. Mae hyn yn golygu na allant nodi patrymau ymddygiad a mynd i'r afael â phroblemau sy'n ailddigwydd.

## Argymhellion

**Dylai'r ysgol:**

A1 Fynd i'r afael â gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003

A2 Gwneud yn siŵr bod polisïau perthnasol yn cysylltu â'i gilydd

A3 Diwygio'r polisi ymddygiad i adlewyrchu'r arferion yn yr ysgol, gan gynnwys y system ar gyfer gwobrau a chosbau

A4 Dadansoddi tueddiadau a phatrymau ymddygiad disgyblion i arfarnu effaith strategaethau'r ysgol

## Cynnydd wrth fynd i'r afael â'r argymhellion o'r nodyn ymweliad neu'r adroddiad arolygu blaenorol

**Argymhelliad 1: cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

O safbwynt y diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad, mae'r ysgol wedi cymryd camau priodol i fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Mae'r tanciau storio olew presennol wedi'u newid am danc modern mwy o faint, gyda byndio dwbl. Symudwyd y tanc newydd hwn i leoliad mwy priodol ar dir yr ysgol.

**Argymhelliad 2: parhau i ddatblygu'r broses hunanarfarnu a sicrhau ei bod yn arwain at gynllunio strategol mwy effeithiol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn i raddau helaeth.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn ddigon myfyriol ac mae'n nodi meysydd addas i'w gwella. Fodd bynnag, mae'n rhy ddisgrifiadol mewn ychydig feysydd. Mae cynllun gwella'r ysgol yn gynhwysfawr ac mae'n cysylltu'n dda â'r adroddiad hunanarfarnu.

**Argymhelliad 3: cynllunio'n fwy effeithiol i ddatblygu medrau allweddol disgyblion mewn pynciau ar draws y cwricwlwm**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi datblygu dull trefnus o wella medrau allweddol disgyblion. Diwygiwyd fformat y cynllun gwersi ac, erbyn hyn, mae gan yr holl wersi ffocws priodol ar ddatblygu medrau meddwl disgyblion, cymhwyso rhif, technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) a chyfathrebu.

**Argymhelliad 4: darparu mwy o gyfleoedd i ddisgyblion gael at brofiadau dysgu gwyddonol**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn llawn.

Mae'r ysgol wedi cyflogi athro cymwys, penodol ar gyfer gwyddoniaeth ac mae'r holl ddisgyblion yn cael gwers wythnosol mewn gwyddoniaeth fel rhan o'u cwricwlwm. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i weithio tuag at TGAU mewn gwyddoniaeth.

**Argymhelliad 5: datblygu partneriaethau mwy effeithiol gydag ysgolion eraill i sicrhau bod staff yn gallu datblygu eu gwybodaeth a'u harbenigedd trwy rannu arfer dda**

Aethpwyd i'r afael â'r argymhelliad hwn yn rhannol.

Mae'r ysgol wedi datblygu ymhellach ei phartneriaeth ag ysgol gynradd leol. Fodd bynnag, mae cynlluniau i athrawon ymweld ag ysgolion eraill i arsylwi arfer orau wedi'u tanddatblygu.

## Cydymffurfio â'r safonau ar gyfer cofrestru

**Safon 1: Ansawdd yr addysg a ddarperir gan yr ysgol**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 2: Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion**

Ar sail yr ymweliad hwn, nid oes tystiolaeth sy'n dangos nad yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon.

**Safon 3: Lles, iechyd a diogelwch disgyblion**

Nid yw'r ysgol yn bodloni'r gofynion rheoleiddiol ar gyfer y safon hon yn llawn. Er mwyn cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, dylai'r ysgol:

- Baratoi a gweithredu polisïau ysgrifenedig i ddiogelu a hybu lles plant sy'n ddisgyblion yn yr ysgol yn unol â Chylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru 005/2008 [3(2b)]

**Safon 4: Addasrwydd perchnogion a staff**

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 4.

**Safon 5: Adeiladau a llety preswyl mewn ysgolion**

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 5.

**Safon 6: Darparu gwybodaeth**

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 6.

**Safon 7: Y modd y dylid ymdrin â chwynion**

Yn yr ymweliad hwn, ni wnaeth Estyn arolygu Safon 7.

## Argymhelliad ynghylch cofrestru

Wrth ystyried cofrestriad yr ysgol hon, efallai byddai Cynulliad Cenedlaethol Cymru am ddymuno ystyried yr argymhelliad canlynol:

Nid yw'r ysgol yn bodloni gofynion Rheoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003 yn llawn. I gydymffurfio â'r rheoliadau hyn yn llawn, dylai'r ysgol fynd i'r afael â'r materion a nodwyd uchod ar gyfer pob safon.

Ni ddylai barnau arolygwyr ar yr arolygiad monitro blynyddol hwn niweidio canfyddiadau arolygiad Adran 163 llawn yn y dyfodol.

## Gwybodaeth am yr ysgol

| | |
|---|---|
| **Ysgol** | Ysgol Bryn Tirion Hall |
| **Rhif yr ysgol** | 664 6005 |
| **Diben yr ymweliad** | Arolygiad monitro blynyddol |
| **Dyddiad yr ymweliad** | 04/02/2015 |
| **Perchennog** | QEWC Ltd |
| **Staff** | Dirprwy bennaeth; 4 athro amser llawn; 1 athro rhan-amser a chynorthwywyr addysgu |
| **Nifer y disgyblion** | 17 ar y gofrestr |
| **Darpariaeth** | Darpariaeth ddydd yn gysylltiedig â'r cartref plant |
| **Y math o anghenion addysgol arbennig (AAA) y mae'r ysgol yn darparu ar ei gyfer** | Anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol (SEBD); anhwylder diffyg sylw a gorfywiogrwydd (ADHD); epilepsi; dyslecsia; anhwylder ar y sbectrwm awtistig |
| **Arolygiad Adran 163 diwethaf** | 01/09/2013 |
| **Arolygiad monitro blynyddol diwethaf** | 23/02/2012 |
| **Arolygiad diwethaf gan AGGCC** | 01/12/2014 |

## Gwybodaeth am y tîm

| | |
|---|---|
| Mrs Gill Sims | Arolygydd Cofnodol |
| Mrs Caroline Rees | Arolygydd Tîm |